



Pwyllgor Craffu Cymunedau

Adroddiad Blynyddol 2015/16

Cynnwys

	<i>Tudalen</i>
Aelodaeth y Pwyllgor 2015/16	03
Rhagair y Cadeirydd	04
Cyflwyniad	05
Diben yr Adroddiad	05
Nifer y Cyfarfodydd	05
Y Rhaglen Waith ar gyfer 2015/16	05
Cylch Gwaith y Pwyllgor	05
Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2015/16	06
Adroddiadau / Eitemau Monitro Perfformiad Safonol Craffu	06
Monitro Perfformiad / Cynnydd	06
Craffu cyn gwneud penderfyniad	08
Datblygu ac Adolygu Polisi	10
Ymgynghori	11
Craffu Ymchwiliol	13
Gweithgareddau eraill yn ystod 2015/16	14
Cefnogaeth ar gyfer y Swyddogaeth Graffu	15
Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor	16
Geirfa Termau	18

Aelodaeth y Pwyllgor 2015/16



Cyng. Deryk Cundy
Cadeirydd
Bynea
(Llafur)



Cyng. Edward Thomas
Is-Gadeirydd
Llandeilo
(Annibynnol)



Cyng. Mansel Charles
Llanegwad
(Plaid Cymru)



Cyng. Anthony Davies
Llandybie
(Annibynnol)



Cyng. Sharen Davies
Llwynhendy
(Llafur)



Cyng. Tegwen
Devichand
Dafen
(Llafur)



Cyng. Ken Howell
Llangeler
(Plaid Cymru)



Cyng. Irfon Jones
Cynwyl Elfed
(Annibynnol)



Cyng. Shirley
Matthews
Pen-Bre
(Llafur)



Cyng. Jeff Owen
Ty-Isha
(Plaid Cymru)



Cyng. Hugh
Shepardson
Pen-Bre
(Annibynnol)



Cyng. Gareth Thomas
Hendy
(Plaid Cymru)



Cyng. Jeff Thomas
Gogledd Caerfyrddin
(Plaid Cymru)

Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2015 ac Ebrill 2016.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur ac mae'r Pwyllgor wedi ystyried ystod eang o adroddiadau a phynciau ac yn ymwneud â nifer o weithgareddau megis cwblhau adolygiad gorchwyl a gorffen a chynnal tri chyfarfod ar y cyd.

Ym mis Mehefin 2015, daeth yr adolygiad gorchwyl a gorffen ynghylch Eiddo Gwag i ben ac roedd yn dda nodi bod gwaith ac argymhellion y Gr p wedi cael eu derbyn yn unfrydol gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Gorffennaf 2015. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad cynnydd ar weithredu argymhellion y Gr p, yn ystod blwyddyn y cyngor sydd i ddod.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn monitro adolygiad gorchwyl a gorffen arall a gynhaliwyd gennym yn 2013/14, er mwyn adolygu'r Polisiâu a'r Protocolau o ran Gorfodi Rheolau Cynllunio. Roedd y ddau gyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Cynllunio wedi cynorthwyo aelodau i fonitro'r gwaith sydd yn mynd yn ei flaen i weithredu argymhellion yr adolygiad, yn fanwl iawn.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am graffu ar ystod eang o bynciau o fewn ein cylch gwaith, gan gynnwys manylion Partneriaeth Bae Abertawe, adfywiad Cross Hands, cyfleusterau Hamdden a Chwaraeon, Parc Gwledig Pen-bre, Harbwr Porth Tywyn, y Gwasanaeth Archifau, Llyfrgelloedd, Tai y Cyfrif Refeniw Tai, y Polisi Dyraniadau, rhentu'r sector preifat a'n hamgueddfeydd, ymhlith nifer o rai eraill.

Mae eich cefnogaeth a'ch mewnbwn adeiladol yn y cyfarfodydd wedi bod yn amhrisiadwy ac i'w groesawu.

Hefyd, hoffwn ddatgan fy niolch a fy ngwerthfawrogiad i'r Cynghorydd Hugh Shepardson am ei gefnogaeth fel y cyn is-gadeirydd ac i'r Cynghorydd Edward Thomas am ei gymorth wrth ymgymryd â'r rôl.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl swyddogion am eu cefnogaeth oleuedig a gwybodus, eu cyngor a'u harweiniad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

*Cyng. Deryk Cundy
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau*

Cyflwyniad

Diben yr Adroddiad Blynyddol

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi er mwyn cydymffurfio â Rhan 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor Sir, sy'n datgan bod rhaid i bwyllgor craffu:

“Baratoi adroddiad blynyddol gan roi disgrifiad o weithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.”

Mae'r adroddiad yn:

- Darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ystod blwyddyn 2015/16 y cyngor.
- Nodi'r meysydd penodol sydd i'w cynnwys fel rhan o 'Flaenraglen Waith' y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ar gyfer 2016/17.

Nifer y Cyfarfodydd

Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi cyfarfod 10 gwaith rhwng mis Mehefin 2015 a mis Ebrill 2016. Roedd tri o'r cyfarfodydd yma yn gyfarfodydd ar y cyd, un gyda'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd ym mis Gorffennaf 2015, a'r gweddill gyda'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Medi 2015 a mis Chwefror 2016.

Y Rhaglen Waith ar gyfer 2015/16

Yn gyffredinol, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson gyda'r hyn a amlinellwyd yn y Blaenraglen Waith ar gyfer 2015/16, a gafodd ei gadarnhau gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2015.

Cafodd y Blaenraglen Waith ei sefydlu'n bennaf ar feysydd allweddol a nodwyd fel amcanion o

fewn y Strategaeth Gymunedol Integredig a'r Cynllun Gwella, ynghyd ag eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllid, adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu a cheisiadau penodol gan y pwyllgor craffu ei hun. Cafwyd ceisiadau am adroddiadau ychwanegol gan y pwyllgor craffu yn ystod y flwyddyn a chafodd y Blaenraglen Waith ei diweddarau yn unol â rheiny.

Mae datblygu'r cysyniad o'r Blaenraglen Waith a'r broses o gytuno arni wedi galluogi pob pwyllgor craffu i benderfynu ar ei agenda gwaith. Mae mantision y dull yma o weithio wedi arwain at well lefel o drafodaeth a mewnbwn yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Cylch Gwaith y Pwyllgor

Mae gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau gyfrifoldebau allweddol dros y canlynol:

- Tai – Cymdeithasol a'r Sector Preifat
- Polisi Cynllunio
- Adfywio Cymunedol gan gynnwys datblygu corfforol a datblygu gwledig
- Datblygu Economaidd
- Rhaglenni Ewropeaidd a rhaglenni sy'n cael eu hariannu yn allanol
- Llyfrgelloedd
- Celfyddydau a Theatrau
- Amgueddfeydd ac Archifau
- Cyfleusterau cefn gwlad
- Chwaraeon, Hamdden ac Adloniant

Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2015/16

Adroddiadau / Eitemau Monitro Perfformiad Craffu Safonol

Adroddiadau Rheoli Perfformiad Hanner Blwyddyn - Un o brif rolau'r pwyllgorau craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau o fewn eu cylchoedd gwaith. Maent yn gwneud hyn yn bennaf trwy graffu ar adroddiadau monitro perfformiad hanner blwyddyn ynghyd ag adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu gwahanol. Mae'r adroddiad monitro perfformiad yn darparu darlun cytbwys o berfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau monitro perfformiad hanner blwyddyn ar gyfer ei gylch gwaith yn ystod cyfarfodydd mis Mehefin a mis Tachwedd 2015.

Adroddiadau Monitro'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf - Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol rheolaidd ar gyllidebau refeniw a chyfalaf yr Adran Adfywio a Hamdden, yr Isdran Dai (heblaw'r cyfrif refeniw tai), yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai.

Diweddariadau am Weithrediadau ac Atgyfeiriadau - Yn ystod blwyddyn y cyngor, fe wnaeth aelodau'r pwyllgor gyflwyno nifer o geisiadau am eitemau ychwanegol er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau craffu. Cafodd 27 argymhelliad / cais gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau eu cofnodi'n ffurfiol. Cyhoeddwyd yr adroddiadau chwarterol hyn er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf am y cynnydd, yn ogystal, cafodd gwybodaeth ei chylchredeg i aelodau y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor.

Monitro Perfformiad / Cynnydd

Monitro Cynllun Gweithredu'r Grwp Gorchwyl a Gorffen: Protocolau a Gorfodi Cynllunio - Yn

ystod 2015/16, roedd y Pwyllgor wedi cynnal dau gyfarfod gyda'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn ystyried adroddiadau cynnydd ar argymhellion yr Adolygiad Gorfodi Rheolau Cynllunio gan Grwp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Pwyllgor Cynllunio mewn cyfarfod ar y cyd ym mis Mehefin 2014 ac yna gan y Bwrdd Gweithredol yn ystod ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2014, Gofynnodd y Bwrdd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, ar y cyd â'r Pwyllgor Cynllunio, fonitro'r modd yr oedd yr argymhellion yn cael eu gweithredu.

Yn y pwyllgor cyntaf ar y cyd ym mis Medi 2015, mynegwyd siom nad oedd cynnydd amserol wedi bod o ran yr argymhelliad i ddatblygu protocol gyda Heddlu Dyfed-Powys ynghylch rhannu gwybodaeth ac i ymchwilio i'r posibilrwydd o ganiatáu mynediad i gronfa ddata ddiogel yr Heddlu. Roedd yr aelodau'n cydnabod bod Heddlu Dyfed-Powys yn flaenweithgar o ran ymwneud ag achosion gorfodi unigol â risg fawr ond roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen trefniant mwy ffurfiol er mwyn gwella'r broses asesu risg o ran Gorfodi Rheolau Cynllunio a diogelwch staff.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

Penderfynodd y ddau bwyllgor yn unfrydol:

- Ofyn i'r Bwrdd Gweithredol gyflwyno sylwadau cadarn i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau er mwyn sicrhau bod cynnydd o ran datblygu trefniadau ffurfiol a hynny drwy drafodaethau rhwng cynrychiolydd priodol yr Heddlu ar y naill law a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r Pennaeth Cynllunio ar y llaw arall.
- Awgrymu i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Adrannau perthnasol bod y grwp

trawsadrannol sy'n targedu adeiladau adfeiliedig gwag yn ystyried datblygu proses ar gyfer ymweld ag eiddo o'r fath yn flynyddol i gofnodi unrhyw ddirywiad yn eu cyflwr.

CANLYNIADAU - Yn ystod y cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Pwyllgor Cynllunio ar 24 Mawrth 2016, dywedwyd wrth yr aelodau wybod bod y Grwp Gorfodi Aml-ddisgyblaethol Corfforaethol bellach wedi cael ei sefydlu a byddai'r grwp yma yn ceisio symud ymlaen y materion gyda Heddlu Dyfed-Powys. Yn ogystal, cafodd y Pwyllgorau wybod y byddai eiddo adfeiliedig gwag yn rhan o Gynllun gwaith y Grwp.

Ym mis Mawrth 2016, roedd y ddau bwyllgor wedi cyfarfod am yr ail dro i fonitro'r cynnydd o ran gweithredu argymhellion y grwp gorchwyl a gorffen.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

Penderfynodd y ddau bwyllgor yn unfrydol:

- Ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys darpariaeth i nodi ôl-geisiadau cynllunio yn system gyfrifiadurol newydd yr Adran Gynllunio.
- Cyflwyno diweddariad ar argymhelliad 21 (cyflwyno sylwadau i'r Ymgynghorwyr Cyfreithiol i Ynadon y Llys) i gyfarfod nesaf y cydbwyllgor.
- Bod y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod ymhen 6 mis i fonitro cynnydd o ran gweithredu argymhellion y Grwp Gorchwyl a Gorffen.

CANLYNIADAU - Ar adeg ysgrifennu a chyhoeddi, mae'r gwaith yn gysylltiedig â cheisiadau'r aelodau yn mynd yn ei flaen a bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf y cydbwyllgor, sydd wedi ei drefnu ar gyfer mis Medi 2016.

Y Fframwaith Rheoli Perfformiad (Adran Cymunedau) - Ym mis Tachwedd 2015, cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol Fframwaith Perfformiad newydd a oedd wedi'i ddatblygu gan yr Adran Cymunedau a gofynnodd am sylwadau'r Pwyllgor ar sut y gellid defnyddio'r Fframwaith i hysbysu'r Pwyllgor hwn am berfformiad y gwasanaethau perthnasol. Roedd y fframwaith newydd wedi'i ddatblygu'n fewnol er mwyn canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf yn yr adran fel modd o fonitro llwyddiant neu fethiant i gyflawni ei amcanion.

Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllunio) - Ym mis Tachwedd 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Perfformiad Blynyddol cyntaf yr Awdurdod ar gyfer Cynllunio. Fel rhan o'i ymgynghoriad 'Cynllunio Positif' ym mis Rhagfyr 2013, nododd y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gyfres o gynigion er mwyn mesur perfformiad rhanddeiliad allweddol yn y gwasanaeth cynllunio. Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru yn flynyddol, bob mis Tachwedd.



Diweddariad Blynyddol y Gwasanaethau Hamdden - Ym mis Mawrth 2016, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Diweddarau Blynyddol y Gwasanaethau Hamdden ar gyfer 2015/16 ledled ei feysydd gwasanaeth yn Hamdden a Chwaraeon, Gwasanaethau Diwylliannol, Cefn Gwlad a'r Arfordir a Chanolfan Addysg Awyr Agored Pen Tywyn.

Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Datblygu Economaidd - Ym mis Mawrth 2016, bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiad diweddarau ynghylch gweithgareddau allweddol yr Is-adran Datblygu Economaidd.

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at waith yr Uned Dwristiaeth a Marchnata a oedd newydd sefydlu ystafell farchnata ar gyfer Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn Neuadd Fawr Campws newydd Prifysgol Abertawe. Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol bod trefniadau yn cael eu gwneud i'r Pwyllgor ymweld â'r Ystafell Farchnata ym Mhrifysgol Abertawe.

CANLYNIAD - Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am nifer o ymweliadau safle ar gyfer blwyddyn y cyngor 2016/17 a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn ei flaenraglen waith.



Craffu cyn gwneud penderfyniad

Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Llywodraeth Cymru - Ym mis Mehefin 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ynghylch Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Llywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Cynllun Benthyciadau yn gyfle newydd i'r Awdurdod gael cyllid i gynnig benthyciadau ailgylchadwy er mwyn gwella cartrefi yn y sector preifat. Hefyd dywedwyd taw Sir Gaerfyrddin oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gynnig benthyciadau, ac felly yr oedd gan yr awdurdod brofiad helaeth o ran gweinyddu cynlluniau o'r fath.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad ac argymhell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn derbyn y benthyciad gan Lywodraeth Cymru, ac yn newid y Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat, er mwyn cynnig benthyciadau yn unol â'r cynllun cenedlaethol.

CANLYNIAD - Yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2015, cytunodd y Bwrdd Gweithredol yn unfrydol i dderbyn y benthyciad gan Lywodraeth Cymru ac i newid y Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat er mwyn cynnig benthyciadau yn unol â'r cynllun cenedlaethol.

Dewisiadau rheoli eraill mewn perthynas â Hamdden - Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar ganlyniadau adolygiad o'r holl ddewisiadau rheoli posibl ar gyfer portffolio'r cyfleusterau hamdden a diwylliant. Gofynwyd i'r Pwyllgor ystyried ac i roi sylwadau ar y dewisiadau arfaethedig, yn bennaf er mwyn ceisio llunio partneriaeth â Sefydliad Dosbarthu Dielw (NPDO) presennol neu hybrid ar gyfer y Gwasanaethau Chwaraeon, Hamdden a Theatr.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

Penderfynodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- Cefnogi'r cynnig bod y Cyngor hwn yn ceisio llunio partneriaeth â Sefydliad Dosbarthu Dielw (NPDO) presennol neu hybrid ar gyfer gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden yn ogystal â gwasanaethau Theatr fel yr argymhellir yn yr adroddiad.
- Awgrymu i'r Bwrdd Gweithredol bod y Cyfarwyddwr yn ymchwilio cyn gynted â phosibl i ddewisiadau rheoli eraill ar gyfer y gwasanaethau a oedd yn weddill yn yr is-adran.

CANLYNIADAU - Bu'r Bwrdd Gweithredol ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2015. Penderfynodd y Bwrdd yn unfrydol (1) bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn llunio partneriaeth â'r Sefydliad Dosbarthu Dielw (neu Ymddiriedolaeth) presennol neu hybrid drwy broses gaffael gan ddefnyddio deialog cystadleuol, y nodir ei bamedrau allweddol yn y strategaeth gaffael o fewn y prif adroddiad, a bydd yn ceisio cyflawni arbedion Cyllidebu ar Sail Blaenoriaeth 3 blynedd y gwasanaethau perthnasol, yn unol â'r lefelau fforddiadwyedd a nodir yn yr adroddiad. Ni fyddai'r broses gaffael yn cynnwys cyflwyno cais gan Sefydliad Dosbarthu Dielw 'mewnol' newydd ei sefydlu; (2) ar y cychwyn byddai'r bartneriaeth ar gyfer y

portffolio Chwaraeon a Hamdden (gan gynnwys cyfleusterau yn Llanelli, Caerfyrddin, Rhydaman, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Llanymddyfri), yn ogystal â gwasanaethau Theatr (yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman), a byddai'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth bellach i wasanaethau eraill yn ddiweddarach, ar ôl i'r contract fod yn weithredol am gyfnod; (3) os na fydd diddordeb mewn rhai o'r gwasanaethau neu'r cyfan, yna dylai Cyngor Sir Caerfyrddin fynd ati i ddatblygu achos busnes i ystyried sefydlu Sefydliad Dosbarthu Dielw newydd ar gyfer y gwasanaethau er mwyn sicrhau arbedion ariannol; (4) cynigir bod y tendr yn nodi bod rheidrwydd ar y sefydliad sy'n bartner wneud cais am statws corff a dderbynnir i Gronfa Bensiwn Dyfed, sydd ar gau i weithwyr presennol ar adeg y trosglwyddo; (5) bod y tendr yn cynnwys rheidrwydd i bennu cost newid Canolfan Hamdden Llanelli am un newydd drwy ddefnyddio Model Dylunio, Adeiladu, Gweithredu, a Chynnal a Chadw (DBOM); (6) bod y swyddogion yn ymchwilio i'r cyfle i sicrhau bod unrhyw Ganolfan Hamdden newydd yn Llanelli yn cydreddeg â datblygiad 'Lles' posibl fel rhan o brosiect mawr 'ARCH' y Ddinas-ranbarth.

Roedd y Cyngorydd Cundy yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol er mwyn egluro sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor.

Datblygu ac Adolygu Polisi

Ein hymrwymiad i Dai Fforddiadwy - Ym mis Gorffennaf 2015, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd er mwyn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r ymgynghoriad helaeth â'r cyhoedd a chyrrff sy'n bartneriaid i'r Cyngor o ran tai fforddiadwy. Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor yn dymuno gosod cyfeiriad polisi a chyfres o egwyddorion clir, cyn datblygu cynllun gweithredu ym mis Hydref 2015.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad at sylw'r Bwrdd Gweithredol ynghyd â gofyn iddo:

- Ymchwilio i fodolau newydd a datblygu achos busnes i greu cwmni masnachu 'hyd braich' perchenogaeth lawn er mwyn darparu mwy o dai fforddiadwy.
- Cysylltu â Phrifysgol Caerdydd ynghylch ei hymchwil ddiweddar i dai fforddiadwy di-garbon a'u hadeiladu.

CANLYNIADAU - Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2015. Penderfynodd y Bwrdd yn unfrydol argymhell i'r Cyngor Sir fod y papur cyfeiriadau strategol 'Ein Hymrwymiad i Dai Fforddiadwy' yn cael ei gymeradwyo. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2015, penderfynodd y Cyngor Sir fabwysiadu argymhelliad y Bwrdd.

Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) - Ym mis Tachwedd 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn ei hysbysu ynghylch y bwriad i symud ymlaen â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer y sir.

Ffioedd cyn cyflwyno Cais - Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a oedd yn cynnwys tri dewis yng nghyswllt cyflwyno taliadau am gyngor cyn cyflwyno ceisiadau posibl am ganiatâd cynllunio.

Adolygu'r Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol

- Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2016, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu canlyniadau'r sesiynau ymgynghori â'r aelodau ynghylch y Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol (a elwir 'Y Polisi Dyraniadau') ac o'r adolygiad gweithredol o'r Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol. Gofynwyd am farn a sylwadau'r Pwyllgor ynghylch y fersiwn drafft o'r Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol diwygiedig a'r cynigion ynghylch cynnal ymarferiad ymgynghori llawn.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol:

- Bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo fel sylfaen ar gyfer ymgynghori yn amodol ar newid y term 'Digartref ond heb fod yn flaenoriaeth o ran angen' i 'Digartref â gofynion arbennig';
- Bod adolygiad pellach o'r broses osod yn cael ei gomisiynu fel rhan o'r broses ymgynghori i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod gosodiadau yn cael eu cynnal mewn modd amserol ac effeithlon.

CANLYNIAD - Ar adeg ysgrifennu a chyhoeddi, mae'r ymgynghoriad yn mynd yn ei flaen ac mi fydd adroddiad sydd i ddilyn y cyfnod ymgynghori, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi 2016.

Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy - Ym mis Chwefror 2016, bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy drafft a oedd yn amlinellu manylion ynghylch sut y byddai'r Awdurdod yn darparu mwy o dai. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol:

- Argymhell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn cadarnhau'r strategaeth i ddefnyddio'r opsiynau sydd gan y Cyngor eisoes i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i'r nifer mwyaf posibl dros y pum mlynedd nesaf.
- Argymhell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn ymchwilio i'r opsiynau i sicrhau'r nifer mwyaf posibl o dai newydd gan ddarparu argymhellion erbyn mis Medi 2016;
- Argymhell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn cadarnhau'r dull o ran ardaloedd gweithredu ar gyfer darparu mwy o dai fforddiadwy mewn gwahanol rannau o'r Sir.
- Argymhell i'r Bwrdd Gweithredol bod y broses o baratoi cynigion pellach ar gyfer yr ardaloedd gweithredu, yn rhoi ystyriaeth briodol i ymarferoldeb gwireddu'r cynigion a'u cynaliadwyedd gan gynnwys materion megis addasrwydd y seilwaith lleol presennol (e.e. amwynderau lleol) a chyfyngiadau cynllunio posibl.

CANLYNIADAU - Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth, penderfynodd y Cyngor Sir yn unfrydol i gymeradwyo'r argymhellion yma, fel y'u cynigiwyd gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2016.

Ymgynghori

Hybu Annibyniaeth Pobl Hyn yn Sir Gaerfyrddin - Yn ei gyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Gorffennaf 2015, ymgynghorwyd ag aelodau ynghylch y strategaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau i Bobl Hyn.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

Penderfynodd y Pwyllgorau argymhell i'r Bwrdd Gweithredol bod:

- Yr Adran Cymunedau'n ymchwilio i ddatblygu achos busnes ar gyfer defnyddio modelau mentrau cymdeithasol neu fentrau 'nid er elw' i ddarparu agweddau ar y gwasanaethau i bobl hyn.
- Yr Adran Cymunedau'n ymchwilio i ba agweddau ar y ddarpariaeth Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chymdeithasol allai ac a fyddai'n cael budd o gyfuno cyllidebau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol â chyllidebau Gofal Cymdeithasol i ddarparu gwasanaeth mwy cydlynol, cost effeithiol a chynaliadwy.

CANLYNIADAU - Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2015. Penderfynodd y Bwrdd yn unfrydol i argymhell i'r Cyngor Sir bod y weledigaeth a'r strategaeth drafft yn cael ei gymeradwyo.



Adroddiad Blynyddol 2014/15 a Chynllun Gwella 2015/16 Cyngor Sir Caerfyrddin - Ym mis Mehefin 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried fersiwn ddrafft o'r Adroddiad Blynyddol 2014/15 a Chynllun Gwella 2015/16 y Cyngor. Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Cynllun Gwella cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiad y gorffennol cyn ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn. Caiff pob pwyllgor craffu'r cyfle i ystyried yr eitemau yma mewn perthynas a'i feysydd gwaith perthnasol.

Ymgynghoriad blynyddol ynghylch y Gyllideb Refeniw - Yn ystod ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaethau'r Gyllideb Refeniw 2016/17 - 2018/19.

Cyfrif Cyllideb Tai a Lefelau Rhenti Tai ar gyfer 2016/17 (Refeniw a Chyfalaf) - Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2016, bu'r Pwyllgor yn ystyried Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2016/17 a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb. Roedd yr adroddiad y dosbarthwyd fersiwn diwygiedig ohono yn adlewyrchu'r cynigion diweddaraf yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (CHS+).

Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (CHS+) 'Cyflawni'r hyn sydd o bwys' - Ym mis Chwefror 2016, bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Gwaith 2016-19 Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (CHS+). Cafodd yr aelodau eu cynghori bod y Rhaglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy wedi ei sefydlu ar waith blaenorol y rhaglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin, a gafodd ei chwblhau yn 2015, er mwyn cynnal a gwella ar y gwaith a gyflawnwyd yn barod. Tair agwedd allweddol ar y Cynllun oedd:

- Cefnogi tenantiaid a thrigolion gyda materion megis diwygio'r gyfundrefn les, sicrhau bod

gwasanaethau yn gywir, arbed arian i denantiaid yn eu cartrefi, cynhwysiant digidol a pharhau'n weithgar wrth fynd yn hyn

- Buddsoddi mewn cartrefi i gynnal safonau
- Darparu mwy o gartrefi er mwyn codi'r nifer o dai fforddiadwy

Croesawodd y Pwyllgor y Cynllun gan ddiolch i'r Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd a'i staff am y gwaith rhagorol a oedd eisoes wedi'i gyflawni a'r gefnogaeth barhaus a ddarparwyd gan y swyddogion i denantiaid y Cyngor Sir.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol:

- Argymhell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn cadarnhau gweledigaeth y Cynllun Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy a'r rhaglen ariannol a'r rhaglen gyflawni dros y tair blynedd nesaf.
- Argymhell i'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn cadarnhau bod y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

CANLYNIADAU - Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2016, penderfynodd y Cyngor Sir yn unfrydol i fabwysiadu argymhellion y Bwrdd Gweithredol sef bod (i) gweledigaeth Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ac elfennau ariannol a chyflenwi'r rhaglen yn ystod y tair blynedd nesaf yn cael eu cadarnhau a (ii) cael cadarnhad bod y cynllun wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Craffu Ymchwiliol

Grwp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu - Cymunedau 2014/15: Eiddo Gwag yn Sir Gaerfyrddin - Ym mis Mehefin 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad terfynol y Grwp Gorchwyl a Gorffen ynghylch ei adolygiad o Eiddo Gwag yn Sir Gaerfyrddin. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod 11 o'r argymhellion a oedd yn yr adroddiad wedi cael eu llunio gan y Grwp ar ôl ystyried ystod o dystiolaeth mewn cyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2014 a Mehefin 2015. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Grwp a'r holl gyfranogwyr am eu cyfraniad at yr adolygiad.

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol i gymeradwyo Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen a'r argymhellion i'w hystyried gan y Bwrdd Gweithredol.

Y CANLYNIAD - Yn ei gyfarfod ar y 27 Gorffennaf 2015, penderfynodd y Bwrdd Gweithredol yn unfrydol i gefnogi argymhellion y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Eiddo Gwag yn Sir Gaerfyrddin, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Prif amcanion yr adolygiad oedd:

- Canfod a gwerthuso gweithgareddau presenol yr Is-Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd.
- Canfod gwelliannau posib a modelau gweithredu eraill .
- Canfod arfer da cost effeithiol ymhlith awdurdodau, asiantaethau a darparwyr eraill.

Cynhaliodd y Grwp saith cyfarfod ynghyd ag ymweliadau safle (lluniau isod) rhwng Tachwedd 2014 a Mehefin 2015. Aelodau'r Grwp oedd:

- Cyng. Deryk Cundy (Cadeirydd)
- Cyng. Sharen Davies
- Cyng. Ken Howell
- Cyng. Irfon Jones
- Cyng. Edward Thomas
- Cyng. Jeff Thomas





Gweithgareddau eraill yn ystod 2015/16

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen nac ymweliadau safle yn ystod 2015/16.

Er na chafodd sesiynau datblygu penodol eu cynnal ar gyfer y Pwyllgor hwn, cafodd y sesiynau canlynol ar gyfer yr holl aelodau eu trefnu yn ystod 2015/16, a chafodd aelodau'r Pwyllgor wahoddiad iddynt:

- Cyfryngau Cymdeithasol ac Aelodau (Mehefin 2015)
- Gwasanaethau Cwsmeriaid (Hydref 2015)
- Cyfrifoldebau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o ran Sipsiwn a Theithwyr (Rhagfyr 2015)
- Diogelu Plant (Ionawr 2016)
- Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol y Safonau Masnach (Chwefror 2016)



Cefnogaeth ar gyfer y Swyddogaeth Graffu

Ym mis Gorffennaf 2015, trosglwyddwyd y gefnogaeth ar gyfer swyddogaeth graffu Cyngor Sir Gaerfyrddin o'r cyn Dîm Craffu ac Ymgynghoriaeth, a oedd yn rhan o'r Is-Adran Rheoli Pobl a Pherfformiad, i'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, sy'n rhan o'r Is-Adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, Adran y Prif Weithredwr.

Mae'r gefnogaeth ar gyfer y Swyddogaeth Graffu yn cynnwys:

- Darparu cefnogaeth a chynghor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor Sir ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny ynghyd â pharatoi cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod y materion sy'n codi yn ystod y cyfarfodydd yma, yn cael eu gweithredu.
- Darparu cefnogaeth a chynghor ynghylch swyddogaethau Pwyllgorau Craffu y Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol o'r Cyngor a'i swyddogion.
- Rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy gymryd rhan mewn rhwydweithiau a mentrau craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu, a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu Fforwm y Bwrdd Gweithredol.
- Darparu cynghor a chefnogi'r gweithredu o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi.
- Rheoli cydgysylltiad a datblygiad y blaenraglenni gwaith craffu ar y cyd â'r aelodau craffu.
- Rheoli a chydlynu'r adolygiadau craffu gan gynnwys y trefniadau ar gyfer y grwpiau gorchwyl a gorffen, ysgrifennu adroddiadau

ar y cyd â'r grwpiau, ynghyd â chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.

- Rheoli'r rhaglen ddatblygu ar gyfer yr Aelodau Craffu
- Anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Am ragor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys rhaglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

Er mwyn cysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch e-bost i: craffu@sirgar.gov.uk

Presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor

Dangosir presenoldeb yr aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ystod 2015/16, yn y tabl isod. Cynhaliwyd 7 cyfarfod rhwng Mai 2015 ac Ebrill 2016.

Aelod y Pwyllgor	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Cyng. Mansel Charles	7
Cyng. Deryk Cundy	7
Cyng. Anthony Davies	6
Cyng. Sharen Davies	7
Cyng. Tegwen Devichand	5
Cyng. Ken Howell	7
Cyng. Irfon Jones	7
Cyng. Shirley Matthews	5
Cyng. Jeff Owen	6
Cyng. Hugh Shepardson	6
Cyng. Edward Thomas	6
Cyng. Gareth Thomas	5
Cyng. Jeff Thomas	3

Dirprwyon	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Cyng. Sue Allen	1
Cyng. Ryan Bartlett	2
Cyng. Tyssul Evans	1
Cyng. John James	1
Cyng. Louvain Roberts	1
Cyng. Ryan Thomas	1
Cyng. Elwyn Williams	1
Cyng. Joy Williams	1

Aelodau'r Bwrdd Gweithredol	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Cyng. Linda Evans (Tai)	5
Cyng. Meryl Gravell (Adfywio ac Hamdden)	1
Cyng. David Jenkins (Adnoddau)	2

Dangosir presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau mewn cyfarfodydd ar y cyd yn ystod 2015/16, yn y tabl isod. Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau 3 cyfarfod ar y cyd rhwng Mai 2015 ac Ebrill 2016.

Aelod y Pwyllgor	Gyda lechyd	Gyda Cynllunio (i)	Gyda Cynllunio (ii)
Cllr. Mansel Charles	1	1	1
Cllr. Deryk Cundy	1	1	1
Cllr. Anthony Davies	0	1	0
Cllr. Sharen Davies	1	1	1
Cllr. Tegwen Devichand	1	0	0
Cllr. Ken Howell	1	1	1
Cllr. Irfon Jones	1	1	1
Cllr. Shirley Matthews	0	1	1
Cllr. Jeff Owen	1	1	1
Cllr. Hugh Shepardson	1	1	1
Cllr. Edward Thomas	1	1	1
Cllr. Gareth Thomas	1	0	1
Cllr. Jeff Thomas	1	1	0

Dirprwyon	Gyda lechyd	Gyda Cynllunio (i)	Gyda Cynllunio (ii)
Cyng. Sue Allen			1
Cyng. Ryan Bartlett			1
Cyng. Peter Cooper	1		
Cyng. John James	1	1	
Cyng. Anthony Jones	1		
Cyng. Roy Llewellyn		1	
Cyng. Louvain Roberts			1

Aelodau'r Bwrdd Gweithredol	Gyda lechyd	Gyda Cynllunio (i)	Gyda Cynllunio (ii)
Cyng. Meryl Gravell (Adfywio ac Hamdden)			1
Cyng. Jim Jones (Diogelu'r Cyhoedd a'r Amg.)	1		
Cyng. Jane Tremlett (Gofal Cymdeithasol ac lechyd)	1		

Geirfa Termau

ARCH - A Regional Collaboration for Health Project (Prosiect Cydweithredu Rhanbarthol dros Iechyd)

CHS+ - Carmarthenshire Home Standard Plus (Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy)

CIL - Community Infrastructure Levy (Ardoll Seilwaith Cymunedol)

DBOM - Design, Build, Operate and Maintenance Model (Model Dylunio, Adeiladu, Gweithredu a Chynnal a Chadw)

NPDO - Not for Profit Distributing Organisation (Sefydliad Dosbarthu Ddielw)